# 2012 Rhif 2410 (Cy. 260)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf, i Gylchfan Abercannaid, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

*Gwnaed* *18 Medi 2012*

*Yn dod i rym* *24 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Medi 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf, i Gylchfan Abercannaid, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 24 Medi 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” *(“the lengths of the trunk road”*) yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A470 rhwng Cylchfan Abercynon ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chylchfan Abercannaid, ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 mewn grym.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**Cymhwyso**

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Y Cyfnod y bydd y Gorchymyn hwn yn para**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 18 Medi 2012

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o bwynt sydd 1470 o fetrau i'r de o'r terfyn cyflymder 50 MYA parhaus presennol, tua'r gogledd i bwynt ar ddechrau'r terfyn cyflymder 50 MYA presennol a enwyd.

## ATODLEN 2

### TERFYNAU CYFLYMDER 30 MYA A 10 MYA DROS DRO A GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o bwynt sydd 550 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Abercynon i bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r de sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Abercynon tua'r de am bellter o 100 o fetrau.

iii) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Abercynon tua'r gogledd am bellter o 100 o fetrau.

iv) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r de sy'n ymestyn o bwynt sydd 100 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Abercynon i bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Abercynon.

v) Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon.

## ATODLEN 3

## GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad ffisegol Cyffordd Parc Navigation i bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon i bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Abercannaid.

iii) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r de sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Abercannaid i bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon.

iv) Y darn hwnnw o gwadrant de-ddwyrain cerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon sy'n ymestyn o bwynt wrth ei drwyniad ffisegol â'r A472 i bwynt wrth ei drwyniad ffisegol â cherbytffordd yr A470 tua'r gogledd.

v) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r de sy'n ymestyn o bwynt wrth n ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon i bwynt wrth drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r de wrth Gylchfan Parc Navigation.